# <u>Cyngor Cymuned Llanystumdwy</u>

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 4ydd o Fai 2023 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Festri Pencaenewydd a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

1. Croeso gan y Cadeirydd.

   **<u>Yn bresennol</u>** – Y Cynghorwyr Angela Williams (Cadeirydd), Sian Angharad Parry (Is Gadeirydd), Aled Lloyd Evans, Dylan Thomas, Rhys Tudur, Tegid Jones, Aled Davies, Miriam Williams, Delyth Parry, Anwen Jones, Gareth O.Davies, Darren Morley a'r Clerc.

   **<u>Ymddiheuriadau</u>** – Cynghorwyr Margaret Griffith a Sion Jones.

## <u>Cyfarfod Blynyddol (yn cychwyn 7.00 y.h. am yr 20 munud cyntaf)</u>

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod blynyddol 12ed o Fai, 2022 - **<u>Derbyn</u>**.

3. Materion yn codi o'r cofnodion. **<u>Dim</u>**.

4. **<u>Adroddiad ar waith y flwyddyn rhwng 1af o Ebrill, 2022 i'r 31ain o Fawrth, 2023 gan y Cadeirydd, Cynghorydd Angela Williams</u>**.

Bu etholiadau fis Mai 2022, ac fe wnaeth 4 cynghorydd benderfynu rhoi'r gorau iddi, sef Cynghorydd Trefor Jones, William Ifor Hughes, Naomi Jones a Ceri Jones, a bydd colled ar ol ei blynyddoedd o brofiad a gwasanaeth.

Yn ei lle daeth y Cynghorydd Rhys Tudur (a ddaeth hefyd yn aelod lleol hefo Cyngor Gwynedd), a'r Cynghorwyr Dylan Thomas, Delyth Parry a Miriam Williams.

Yna fis Mawrth 2023, penderfynodd y Cynghorydd Twm Prys Jones ymddeol gan adael bwlch eto ar ei ol.

Ar ol tua 2 flynedd o gyfarfod drwy zoom yn unig, fe gychwynwyd cyfarfod wyneb yn wyneb eto, gyda'r opsiwn o fod yn rhithiol bob tro, sydd wedi bod yn llwyddianus.

Fe wnaed yr holl waith arferol o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio, gwaith cynnal a chadw ar y llwybrau a'r cae chwarae.

Fe wnaeth ddiolch i bawb am ei gwaith a'i cymorth tra bu yn Gadeirydd.

5. **<u>Adroddiad Ariannol am y flwyddyn 1af o Ebrill, 2022 i'r 31ain o Fawrth, 2023 gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.</u>**

Dechrau Ebrill 2022 roedd cyfanswm o £15,674.54 yn y 3 cyfrif banc. Fe gaewyd un cyfrif i arbed talu costau banc fis Mai 2022.
Erbyn diwedd Mawrth 2023 roedd y cyfanswm yn £15,445.47 yn y 2 cyfrif. Mae hyn yn cynnwys £4,600.79 yn y cyfrif cadw, a £2000.00 o grant gan Gronfa Park-Jones tuag at wefan newydd Cof Eifionydd.
Roedd y praesept yn £18,360.00 llynedd.

- Derbyniwyd ad-daliad TAW o £311.63 llynedd, ac eleni bydd y swm yn £839.70.
- Derbyniwyd ad-daliad o £417.80 gan Cyngor Gwynedd am waith ar y llwybrau, sef yr un ffigwr a'r flwyddyn cynt.
- Derbyniwyd £4719.95 gan gwmni Lightsource a oedd yn £529.57 yn fwy na'r flwyddyn cynt.
- Derbyniwyd £1017.83 o ad-daliad gan Tý Doctor Nefyn.

- Y prif wariant yn ystod y flwyddyn oedd:-
- gosod 2 diffibileiddiwr yn Rhoslan a Chapel y Beirdd.
- Trwsio sedd lloches bws Lodge Trallwyn.
- Toiledau Llanystumdwy.

Fe dalwyd £8,903.64 o daliadau o'r cyfrif cyfredol tuag at geisiadau am gymorth ariannol, a oedd yn cynnwys arian Lightsource. Roedd hyn yn cynnwys talu am gyswllt Wifi yn Capel Pencaenewydd, Neuaddau Llanystumdwy a Chwilog, mynwentydd lleol, cylchoedd meithrin, clybiau lleol, eisteddfod a neuadd.
Ni dderbyniwyd bil gan Archwilio Cymru am y flwyddyn y diweddu 2022 eto. Roedd popeth yn iawn hefo'r archwilio mewnol ac allanol.
Y bwriad yw parhau hefo'r drefn o anfon y gyllideb/cyfrifon bob mis cyn y cyfarfod i gadw golwg ar y gwariant.
Diolchodd y Clerc i bawb a'r Cadeirydd am ei cymorth yn ystod y flwyddyn i hwyluso ei gwaith.

6. Cyfle i'r trethdalwyr ofyn cwestiynau - neb yn bresennol.

7. Ethol swyddogion am y flwyddyn mis Mai, 2024:
   a) **Cadeirydd – Cynghorydd Sian Angharad Parry (**wedi llofnodi datgan derbyn swydd).
   b) **Is gadeirydd -Cynghorydd Aled Lloyd Evans (**wedi llofnodi datgan derbyn swydd).
   c) **Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol** – Bethan Parry Jones aros yr un fath/dim newid.
   ch) **Elusen William Ellis**, Llanystumdwy, - Cynghorwyr Ward Llanystumdwy i gyd.

8. Cadarnhau nad oes angen newid unrhyw aelodaeth o bwyllgorau'r Cyngor ar hyn o bryd.

9. Dewis cynrychiolydd i:-
Pwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru – Is-gadeirydd Cynghorydd Aled Lloyd Evans.
Grwp Mynediad Dwyfor – Cynghorydd Dylan Thomas.

**Diolchwyd i'r Cadeirydd Angela Williams a'r Clerc am ei gwaith yn ystod y flwyddyn.**

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**